



Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Ymholiadau Adran 126

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn amlinellu newid mewn diwylliant o ran yswyddogaeth ymholiadau diogelu Adran 126.

Mae'r adran hon yn berthnasol pan fo gan awdurdod lleol achos rhesymol i amau bod gan oedolyn yn eu hardal (pa un a ydynt yn preswyllo yno fel arfer ai peidio) -

- anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio)
- yn profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o hynny;
- **ac** o ganlyniad i'r anghenion hynny nid ydynt yn gallu amddiffyn eu hunain yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod, neu yn erbyn y perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud (neu achosi iddynt gael eu gwneud) pa bynnag ymholiadau y mae'n credu sy'n angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd camau yn achos yr oedolyn (boed hynny o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pwy ddylai eu cymryd.

Pwrpas:

Pwrpas yr ymholiad yw penderfynu a ddylai awdurdod lleol neu sefydliad arall, neu unigolyn, wneud rhywbeth i helpu ac amddiffyn yr oedolyn.

Ymarferion casglu gwybodaeth anffurfiol yw ymholiadau (**nid ymchwiliadau ffurfiol**). Mae gwneud ymholiadau ar wahân i asesiadau gofal a chymorth ond maent yn gysylltiedig ac mae'n rhaid cofnodi canfyddiadau'r ymholiadau mewn cynllun gofal a chymorth (os oes un) neu mewn cofnod achos unigol.

Proses

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai sefydliad arall wneud yr ymholiad, er enghraifft darparwr gofal, dylai'r awdurdod lleol fod yn glir ynghylch y terfynau amser, yr angen i gael gwybod beth oedd canlyniadau'r ymholiad a pha gam gweithredu i'w gymryd os nad yw hyn wedi'i wneud.

Asiantaethau Partner sy'n gallu ymgymryd ag Ymholiadau

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Ymarferwyr Arweiniol)
- Heddlu Gogledd Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf
- WAST

- Gwasanaethau a Gomisiynir (Rheolwyr)

Ni ddylid rhuthro ymholiadau, ond dylid gosod terfynau amser. Fel arfer, dylid cwblhau ymholiad o fewn **SAITH niwrnod gwaith o'r adroddiad**. Os bydd hyn yn cymryd mwy o amser na hynny, dylid cofnodi rhesymau.

Dylai'r ALI fonitro cynnydd yr ymholiad os mai asiantaeth arall sy'n gwneud yr ymholiadau a sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau amser i rwystro oedi.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, yn eu rôl arweiniol a chydlynol, sicrhau bod yr ymholiad yn bodloni ei ddyletswydd dan adran 126 i benderfynu pa weithred (os unrhyw un) sydd ei hangen i helpu a diogelu'r oedolyn, a pwy ddylai wneud hyn, a sicrhau y cymerir y camau hyn ble bo angen.

Yn y rôl hon, os yw'r awdurdod lleol wedi gofyn i rywun arall wneud ymholiadau, gallant herio'r corff sy'n gwneud yr ymholiad os ydynt yn ystyried bod y broses a/neu'r canlyniad yn anfoddfaol.

Ymgysylltiad oedolyn mewn perygl:

Dylai beth sy'n digwydd yn sgil ymholiad adlewyrchu dymuniadau'r oedolyn lle bynnag bosibl, fel sydd wedi'i nodi ganddyn nhw neu gan eu cynrychiolydd neu eiriolwr. Os oes diffyg galluedd, dylid gwneud penderfyniadau er budd gorau'r unigolyn, ac yn gymesur â lefel y pryder.

Camdriniaeth neu esgeulustod gan weithiwr:

Mae'n bwysig bod yr holl bartneriaid yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol os yw gweithiwr yn euog o gam-drin neu esgeuluso neu os yw'n digwydd mewn lleoliad a reolir megis cartref gofal, ysbyty neu goleg. Dylai'r cyfrifoldeb cyntaf i weithredu fod ar y sefydliad sy'n cyflogi fel darparwr y gwasanaeth.

Mae'n bosibl y bydd ymateb y cyflogwr yn darparu sicrwydd i'r Awdurdod Lleol ac felly ni fydd angen unrhyw gamau pellach. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol o hyd yw sicrhau bod yr ymholiad yn cael ei gyfeirio i'r y lle cywir a bod rhywbeth yn cael ei wneud yn ei gylch.

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

<https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/>